# Coladu a chyfleu gwybodaeth iechyd i unigolion

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â choladu a chyfleu gwybodaeth iechyd i unigolion, eu teulu neu i bobl eraill arwyddocaol i ymateb i ymholiadau neu fel rhan o hybu iechyd neu roi cyngor.  Mae enghreifftiau'n cynnwys rhoi gwybodaeth am lwyddiant dywededig triniaeth benodol; newyddion arwyddocaol; rhoi cyngor yn dilyn diagnosis neu ymyrraeth glinigol, a chadw cofnodion cysylltiedig.  Bydd hyn yn cynnwys cyfathrebu ar lafar ac yn ysgrifenedig.  Mae'r safon hon yn berthnasol i amrywiaeth eang o gyd-destunau iechyd a rolau mewn gofal mewn argyfwng, gofal sylfaenol a gofal eilaidd.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. cael at a dehongli'n gywir yr holl wybodaeth a chyfarwyddiadau gwaith sy'n berthnasol
2. gweithio'n ddiogel bob amser ac yn unol â'r holl ddeddfwriaeth, canllawiau, polisïau, gweithdrefnau a phrotocolau perthnasol
3. delio'n brydlon ac yn effeithiol ag unrhyw broblemau o fewn eich rheolaeth a rhoi gwybod am broblemau na ellir eu datrys
4. cyfathrebu â'r unigolyn a phobl allweddol yn ôl cyflymder, modd a lefel sy'n briodol i ddealltwriaeth ac anghenion yr unigolyn, a'r hyn sy'n well ganddo
5. parchu hawliau a dymuniadau'r unigolyn o ran ei breifatrwydd, ei gredoau a'i urddas
6. ennill cydsyniad dilys, gwybodus gan yr unigolyn yn unol â gweithdrefnau penodol
7. nodi'r wybodaeth iechyd y mae ei hangen a defnyddio ffynonellau diogel perthnasol i gael ati
8. defnyddio ffynonellau diogel perthnasol i gael at y wybodaeth iechyd ofynnol
9. 
sicrhau bod gwybodaeth iechyd:
10. 
cyflwyno'r wybodaeth iechyd sy'n seiliedig ar dystiolaeth mewn fformat sy'n gyson â lefel dealltwriaeth yr unigolyn, ei ddiwylliant, ei gefndir a'r ffyrdd sy'n well ganddo gyfathrebu
11. cymryd camau i gael eglurhad o faterion mewn modd sy'n gyson â lefel dealltwriaeth, diwylliant a chefndir yr unigolyn
12. cadarnhau bod anghenion gwybodaeth y derbynnydd wedi'u bodloni
13. cwblhau a storio'r holl ddogfennaeth berthnasol yn unol â gofynion y sefydliad